



02.10.20

Annwyl Rieni / Warcheidwyr

Diolch yn fawr i chi gyd am eich cefnogaeth a chydweithrediad wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol yn ystod y mis diwethaf.

Yn sgîl yr amgylchiadau presennol nid ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gadarnhau dyddiadau ar gyfer digwyddiadau ysgol. Bwriadwn barhau gydag ein digwyddiadau arferol pan fydd y cyfyngiadau presennol wedi codi digon er mwyn i ni cynnig rhain yn ddiogel. Diolchwn i chi am eich dealltwriaeth.

Nodwch rydyn ar hyn o bryd yn cynllunio'r diwrnodau HMS canlynol:

Diwrnodau HMS

12 Chwefror 2021, 26 Mawrth 2021, 12 Ebrill 2021, 19 Gorffennaf 2021, 20 Gorffennaf 2021

Wythnos Noson Rhieni

Hoffwn gynnig apwyntiadau ffôn i rieni gyda phob athro dosbarth i drafod cynnydd eich plentyn. Mae'r system o fwcio apwyntiadau ar-lein yn parhau yr un peth. Byddwch yn derbyn neges destun i ddweud pryd mae'r system yn fyw er mwyn bwcio apwyntiad 10 munud ar gyfer yr alwad ffôn. Gofynnwn i chi gadw at yr amser ac hyd er mwyn osgoi unrhyw oedi i apwyntiadau hwyrach.

Bydd yr athrawon yn defnyddio'r rhif cyswllt sydd gyda ni'r barod ar y system. Os hoffech wirio neu newid y rhif ffôn yma, cysylltwch â'r ysgol. Nodwch y dyddiadau canlynol ar gyfer apwyntiadau ffôn:

Meithrin:	19/20/21 Hydref	Derbyn:	21/22 Hydref
Blwyddyn 1:	20/22 Hydref	Blwyddyn 2:	19/22 Hydref
Blwyddyn 3:	19/21 Hydref	Blwyddyn 4:	19/21 Hydref
Blwyddyn 5:	20/21 Hydref	Blwyddyn 6:	19/22 Hydref

Ffotograffydd

Bydd y ffotograffydd yn ymweld â'r ysgol ar ddydd Mercher 7 Hydref. Caiff luniau unigol o bob plentyn eu cymryd.

Gan ei fod eu blwyddyn olaf ym Mro Ogwr, cynigwn i ddisgyblion Blwyddyn 6 gael llun gydag unrhyw brodyr a chwiorydd sydd yma yn yr ysgol hefyd.

Brechlyn Ffliw

Bydd y wasanaeth iechyd yn ymweld â'r ysgol ar ddydd Llun 9^{fed} o Dachwedd er mwyn gweinyddu'r frechlyn ffliw trwynol ar gyfer plant Derbyn hyd at flwyddyn 6. Byddwch yn derbyn llythyr a mwy o fanylion yn agosach ar y diwrnod.

Nid yw plant Meithrin yn rhan o'r rhaglen ffliw ysgolion, felly bydd angen i rieni Meithrin drefnu apwyntiad personol ar gyfer brechlyn ffliw trwynol.

Ymarfer Corff / Gwisg Ysgol

Gall ddisgyblion fynychu'r ysgol yn gwisgo'u gwisg Addysg Gorfforol ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol. Gwisg Addysg Gorfforol yr ysgol yw esgidiau addas, trowsus tracwisg tywyll a chrys gwyn. Gofynnwn yn garedig i chi gadw at y lliwiau yma a nid caniatáu gwisgoedd llachar, lliwgar.

Mae o leiaf ddwy ffenestr ar agor ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd er mwyn caniatáu awyru naturiol cyson. Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn dod â siwmpwr a chôt i'r ysgol, gan fydd yr ystafelloedd dosbarth yn oerach nag arfer.

Dysgu Cyfunol

Rydyn wedi cyhoeddi canllawiau a chytundeb ysgol ar wefan yr ysgol ar gyfer sy'n amlinellu ein prosesau Dysgu Cyfunol a bydd yn cael eu gweithredu os bydd cyfnod o ynysu neu cyfnod clo yn digwydd. Byddwch hefyd yn derbyn dolen cyswllt i lenwi ffurflen ar gyfer ymrwymo a chytuno i'r cynnig addysgu yma.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus

Cofion gorau

Sharon Jayne

Pennaeth